STRATEGAETH ADEILADU CYNALIADWY FERSIWN DDRAFFT 2006

PAPUR YMGYNGHORI

(Cyhoeddwyd ar gyfer Ymgynghori ar 2ail Chwefror 2006)

dti

Y DTI yw'r nerth tu ôl i'n huchelgais o 'ffyniant i bawb' drwy weithio i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer llwyddiant busnes yn y DU. Byddwn yn helpu pobl a chwmnïau i ddod yn fwy cynhyrchiol drwy hybu menter, blaengarwch a chreadigrwydd.

Pleidiwn achos busnesau'r DU gartref a thramor. Buddsoddwn yn drwm mewn gwyddoniaeth a thechnoleg o'r rheng flaen. Amddiffynnwn hawliau pobl weithiol a defnyddwyr. A safwn yn gefn i farchnadoedd teg ac agored yn y DU, yn Ewrop a ledled y byd.

First published January 2006. Department of Trade and Industry.
www.dti.gov.uk © Crown Copyright. URN 06/ 729W

Pwrpas yr Adolygiad a'r Angen Amdano

Cafodd y strategaeth bresennol ar gyfer adeiladu cynaliadwy ei chyhoeddi dros 5 mlynedd yn ôl. Erbyn hyn mae wedi hen ddyddio am fod datblygiadau mawr wedi digwydd yn y cyfnod hwnnw ym mholisi'r Llywodraeth ac yn y diwydiant.

Mae amseriad yr adolygiad hwn yn briodol am ei fod yn dilyn Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU a gyhoeddwyd fis Mawrth 2005 sy'n ategu dymuniad cyffredinol y llywodraeth i weithio gyda sectorau'r diwydiant.

Y Materion Allweddol ac Amcanion yr Adolygiad

Nod yr adolygiad hwn i Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2000 yw ystyried beth a gyflawnwyd yn y pum mlynedd diwethaf a rhoi fframwaith effeithiol i lywio polisïau'r Llywodraeth yn y dyfodol lle mae'r rheini'n berthnasol i adeiladu. Mae'n dangos i ba gyfeiriad y mae'r llywodraeth yn awyddus i'r diwydiant ddatblygu yn y dyfodol ac mae hefyd yn dangos pa bethau ddylai gael y sylw pennaf ym marn busnesau. Gobeithir hefyd y bydd y strategaeth yn annog y diwydiant i awgrymu atebion cadarnhaol i rai o'r cwestiynau pwysig y mae'n eu hwynebu.

Strategaeth Ymgynghori a Gyhoeddwyd ar: 2ail Chwefror 2006

Ymateb Erbyn: 26ain Ebrill 2006

Ymholiadau i: David Eggleton neu David Hughes
Y Tîm Rheoleiddio, Cynaliadwyedd ac Arloesedd
Uned y Sector Adeiladu, Bae 366,
Yr Adran Masnach a Diwydiant
151 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SS
e-bost:david.eggleton@dti.gsi.gov.uk
e-bost: david.hughes@dti.gsi.gov.uk
Rhif ffôn: 020 7215 1428 / 020 7215 0993

CYNNWYS

1 Rhagarweiniad

2 Yr Ymgynghoriad – Y cyd-destun ehangach

3 Asesiad o'r Effaith ar Fusnesau

4 Sut i Ymateb

5 Atodiad 1: Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

1 RHAGARWEINIAD

Mae camau breision wedi'u cymryd yn ddiweddar, drwy lu o wahanol fentrau, i wella cynaliadwyedd adeiladau a'r hyn sydd ynddynt. Er enghraifft, bydd adeilad a godwyd i'r safonau diwygiedig a gyhoeddwyd yn ddiweddar 40% yn rhatach ar ynni nag un a adeiladwyd pum mlynedd yn ôl. Y newidiadau yn y rheoliadau adeiladu sydd i ddiolch am hyn. Mae offer t_ fel rhewgelloedd ac oergelloedd yn fwy effeithlon nag yr oeddynt ddeng mlynedd yn ôl. Serch hynny, mae dros chwarter y carbon a ollyngir i'r aer yn y DU yn dod o ynni a ddefnyddir mewn cartrefi a thros hanner y d_r a ddefnyddir mewn cartrefi.

Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae'r cyhoedd a'r diwydiant adeiladu yn awyddus iawn i ddeall beth sy'n gwneud adeilad yn gynaliadwy. Maent yn pryderu am y newid yn yr hinsawdd – yn fyd-eang ac yn lleol - ac maent yn cydnabod y gallai'r sefyllfa waethygu oni weithredir o ddifrif ac yn barhaus. Mae pobl yn awyddus iawn i wneud eu rhan i ddiogelu'r amgylchedd.

Y rhesymau hyn a barodd i'r Llywodraeth ddiweddaru'r Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy (2000). Roedd y ddogfen flaenorol 'Building a better quality of life – A strategy for more sustainable construction' yn ddechrau da i wella'r safonau yn y diwydiant ac mae'r deg thema sylfaenol ar gyfer gweithredu yr un mor berthnasol heddiw:

- Ailddefnyddio'r asedau adeiladu presennol
- Dylunio gan wastraffu cyn lleied â phosibl
- Anelu at adeiladu'n ddiwastraff
- Defnyddio cyn lleied o ynni â phosibl wrth adeiladu
- Defnyddio cyn lleied o ynni â phosibl yn y defnydd o'r adeilad
- Osgoi llygru'r amgylchedd
- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth
- Gwarchod yr adnoddau d_r
- Parchu pobl a'u hamgylchedd lleol
- Pennu targedau (meincnodau a dangosyddion perfformiad)

Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn bryd symud ymlaen gan edrych tuag at 2020 a rhoi anogaeth i gyflwyno cynlluniau cynaliadwyedd mwy cymhleth, er enghraifft ym maes 'cost oes gyfan' yr adeiladau, gweithredu 'cynlluniau rheoli gwastraff ar y safle' a sicrhau bod mwy yn mabwysiadu dangosyddion perfformiad allweddol yn y diwydiant.

Rydym yn ymgynghori ar ddwy ddogfen:

- Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2006: Crynodeb Drafft Ionawr 2006

a

- Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2006: Adroddiad Drafft Ionawr 2006

2 CYD-DESTUN YR YMGYNGHORIAD

Y nod
Nod yr adolygiad hwn i Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2000 yw ystyried beth a gyflawnwyd yn y pum mlynedd diwethaf a rhoi fframwaith effeithiol i lywio polisïau'r Llywodraeth yn y dyfodol lle mae'r rheini'n berthnasol i adeiladu. Mae'n dangos i ba gyfeiriad y mae'r llywodraeth yn awyddus i'r diwydiant ddatblygu yn y dyfodol ac mae hefyd yn dangos pa bethau ddylai gael y sylw pennaf ym marn busnesau. Gobeithir hefyd y bydd y strategaeth yn annog y diwydiant i awgrymu atebion cadarnhaol i rai o'r cwestiynau pwysig y mae'n eu hwynebu.

Mae'r Strategaeth yn cael ei hystyried mewn cyfres gyffredinol o themâu, sef:

- Agenda'r Bobl
- Rheoli'r Amgylchedd a'r Adnoddau (Ynni, Gwastraff, yr Amgylchedd Adeiledig)
- Caffael gan y Llywodraeth
- Y Dimensiwn Tramor
- Mentrau
- Y rhan a chwaraeir gan y diwydiant
- Y Dyfodol

Cylch Gwaith
Mae'r amgylchedd adeiledig wrth wraidd ein heconomi. Mae'n mowldio bywydau pob un ohonom. Ond mae'n llyncu adnoddau naturiol yn y fath fodd fel ei fod yn gyfrifol am rai o'r newidiadau amgylcheddol mwyaf difrifol, yn fyd-eang ac yn lleol. Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio adnoddau naturiol i adeiladu, lefel y llygryddion a ollyngir a'r gwastraff a gynhyrchir wrth adeiladu, ac wrth fyw yn yr adeiladau hynny, ar hyn o bryd yn rhy uchel o lawer. Felly, rhaid i'r diwydiant adeiladu gofleidio dulliau mwy cynaliadwy o adeiladu a gwneud gwell defnydd o adnoddau wrth gyflawni hynny.

Strategaeth Ymgynghori a Gyhoeddwyd ar: 2ail Chwefror 2006

Ymateb Erbyn: 26ain Ebrill 2006

Ymholiadau i: David Eggleton neu David Hughes
Y Tîm Rheoleiddio, Cynaliadwyedd ac Arloesedd
Uned y Sector Adeiladu, Bae 366,
Yr Adran Masnach a Diwydiant
151 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SS
e-bost:david.eggleton@dti.gsi.gov.uk
e-bost: david.hughes@dti.gsi.gov.uk
Rhif ffôn: 020 7215 1428 / 020 7215 0993

3 NODAU A STRWYTHUR

3.1 Pwrpas yr Adolygiad a'r Angen Amdano

Cafodd y strategaeth bresennol ar gyfer adeiladu cynaliadwy ei chyhoeddi dros 5 mlynedd yn ôl. Erbyn hyn mae wedi hen ddyddio am fod datblygiadau mawr wedi digwydd yn y cyfnod hwnnw ym mholisi'r Llywodraeth ac yn y diwydiant.

Mae amseriad yr adolygiad hwn yn briodol am ei fod yn dilyn Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU a gyhoeddwyd fis Mawrth 2005 sy'n ategu dymuniad cyffredinol y llywodraeth i weithio gyda sectorau'r diwydiant.

3.2 Y Materion Allweddol ac Amcanion yr Adolygiad

Nod yr adolygiad hwn i Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2000 yw ystyried beth a gyflawnwyd yn y pum mlynedd diwethaf a rhoi fframwaith effeithiol i lywio polisïau'r Llywodraeth yn y dyfodol lle mae'r rheini'n berthnasol i adeiladu. Mae'n dangos i ba gyfeiriad y mae'r llywodraeth yn awyddus i'r diwydiant ddatblygu yn y dyfodol ac mae hefyd yn dangos pa bethau ddylai gael y sylw pennaf ym marn busnesau. Gobeithir hefyd y bydd y strategaeth yn annog y diwydiant i awgrymu atebion cadarnhaol i rai o'r cwestiynau pwysig y mae'n eu hwynebu.

3.3 Strwythur yr Adolygiad

Mae'r Strategaeth yn cael ei hystyried mewn cyfres gyffredinol o themâu, sef:

- Agenda'r Bobl
- Rheoli'r Amgylchedd a'r Adnoddau (Ynni, Gwastraff, yr Amgylchedd Adeiledig)
- Caffael gan y Llywodraeth
- Y Dimensiwn Tramor
- Mentrau
- Y rhan a chwaraeir gan y diwydiant
- Y Dyfodol

Nod y Strategaeth yw ystyried yr hyn a wnaed ym maes adeiladu cynaliadwy yn y pum mlynedd ddiwethaf, ers cyhoeddi 'Building a better quality of life – a strategy for more sustainable construction' ym mis Ebrill 2000. Mae'n anelu at werthuso'r arferion cyfredol yn y diwydiant gan amlygu'r enghreifftiau gorau. Bydd hefyd yn cymryd cipolwg ar y datblygiadau posibl yn yr arferion gorau ym maes adeiladu a allai ddod i'r amlwg yn y pymtheg mlynedd nesaf ac awgrymu, lle bo modd, dargedau y gallai'r diwydiant eu bodloni a gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer dyfodol y diwydiant.

Mae'r amgylchedd adeiledig wrth wraidd ein heconomi. Mae'n mowldio bywydau pob un ohonom. Ond mae'n llyncu adnoddau naturiol yn y fath fodd fel ei fod yn gyfrifol am rai o'r newidiadau amgylcheddol mwyaf difrifol, yn fyd-eang ac yn lleol. Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio adnoddau naturiol i adeiladu, lefel y llygryddion a ollyngir a'r gwastraff a gynhyrchir wrth adeiladu, ac wrth fyw yn yr adeiladau hynny, ar hyn o bryd yn rhy uchel o lawer. Felly, rhaid i'r diwydiant adeiladu gofleidio dulliau mwy cynaliadwy o adeiladu a gwneud gwell defnydd o adnoddau wrth gyflawni hynny.

Rhai o'r elfennau pwysig wrth geisio cyrraedd y nod o adeiladu'n gynaliadwy yw hyrwyddo adeiladau sydd yn:

- cadw i'r lleiafswm unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd wrth adeiladu ac wrth ddefnyddio'r cyfryw adeiladau, gan harddu'r amgylchedd naturiol;
- gwella ansawdd bywyd pobl drwy fod yn fforddiadwy ac yn hygyrch a thrwy gynnig lleoliadau mwy glân, diogel a gwyrdd;
- helpu i annog cynhyrchiant drwy fod yn hyblyg ar gyfer y dyfodol, adeiladu yn gost-effeithiol a helpu amgylchedd gwaith pobl;
- cymryd ystyriaeth lawn o'r effaith ar yr amgylchedd o gwmpas drwy geisio cynnal bioamrywiaeth y safle ac osgoi unrhyw lygredd dianghenraid;
- defnyddio dulliau adeiladu modern lle bynnag y bo modd.

3.4 Y Goblygiadau i'r Diwydiant o ran Cost / Buddiannau

Gallai'r diwydiant arbed arian yn sylweddol yn yr hirdymor drwy fod yn effeithlon ac ystyried a chanfod atebion gwerth chweil i lawer o'r pynciau a drafodir yn y strategaeth, fel lleihau gwastraff, defnyddio adnoddau ynni adnewyddadwy, adeiladau hunan-awyru, dulliau modern o adeiladu a newid yn yr hinsawdd. Serch hynny, byddai costau ynghlwm wrth weithredu rhai mesurau sy'n gwella cynaliadwyedd. Fel arfer, mae angen i'r diwydiant fynd i'r afael â hyn fesul achos unigol. Byddai'r rhan fwyaf o'r opsiynau sy'n gwella cynaliadwyedd prosiectau, prosesau a/neu sefydliadau yn cael eu cymhwyso'n wahanol mewn amgylchiadau gwahanol.

Amcangyfrifir yn geidwadol y gellid arbed dros 30% mewn adeiladu drwy fod yn fwy effeithlon ac y gallai hynny olygu bod y diwydiant yn arbed £2.8 biliwn bob blwyddyn; y ffactorau allweddol yw gwella iechyd a diogelwch a lleihau gwastraff ar safleoedd.

Un o ddibenion y strategaeth hon yw cyflwyno, mewn un ddogfen, bolisïau cyfredol y Llywodraeth sy'n berthnasol i adeiladu cynaliadwy. Felly, ni wnaed unrhyw asesiadau ychwanegol o'r effaith reoleiddiol.

4 SUT I YMATEB

4.1 Sut i Ymateb

Dechreuodd y broses ymgynghori ar 2ail Chwefror 2006 a'r diwrnod olaf ar gyfer derbyn ymatebion fydd 26ain Ebrill 2006. Gellir cyflwyno ymatebion yn electronig a gellir lawrlwytho'r holiadur oddi ar ein gwefan: www.dti.gov.uk/construction/sustain

Hefyd, gellir ymateb drwy anfon llythyr, ffacs neu e-bost at:

David Eggleton
Y Tîm Rheoleiddio, Cynaliadwyedd ac Arloesedd
Uned y Sector Adeiladu, Bae 366,
Yr Adran Masnach a Diwydiant
151 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SS
Ffôn: 020 7215 1428
Ffacs: 020 7215 0846
e-bost:david.eggleton@dti.gsi.gov.uk

Pan fyddwch yn ymateb nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu a ydych yn cyflwyno safbwyntiau ar ran sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, gwnewch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle bo hynny'n berthnasol, sut gafodd barn yr aelodau ei chasglu.

4.2 Copïau Ychwanegol

Gallwch lawrlwytho'r ddogfen hon, a'r ddwy ddogfen yr ydym yn ymgynghori yn eu cylch, sef:

- Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2006: Crynodeb Drafft Ionawr 2006

a

- Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2006: Adroddiad Drafft Ionawr 2006

oddi ar wefan y DTI (gweler y linc yn 1 uchod). Ond os hoffech gael copïau caled, cysylltwch ag Anne Turner naill ai drwy ffonio 020 7215 0995, neu drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Miss A Turner
Y Tîm Rheoleiddio, Cynaliadwyedd ac Arloesedd
DTI - Uned y Sector Adeiladu, Bae 366,
151 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SS

4.3 Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Rhestrir y rhain yn Atodiad 1 a'u nod yw cael sylwadau a chyfraniadau'r diwydiant i sicrhau bod y Strategaeth yn datblygu ar y trywydd iawn.

Mae'r drafft presennol yn cynnwys llawer am yr hyn a wnaed gan y diwydiant adeiladu yn y pum mlynedd ers i'r strategaeth gael ei chyhoeddi ac mae'n cyfeirio at y gweithgareddau cynaliadwyedd cyfredol. Ond mae'r Llywodraeth erbyn hyn yn awyddus iawn i gael barn y rhai yr ymgynghorir â hwy am y cyfeiriad a allai fod orau i'r diwydiant dros y cyfnod a ragwelir yn y ddogfen hon.

4.4 Cyfrinachedd a Diogelu Data

Gallai'r wybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau datgelu gwybodaeth (sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 [FOIA], Deddf Diogelu Data 1998 [DPA] a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.) Os hoffech i wybodaeth arall a roddwch i ni gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech sylweddoli bod gan yr FOIA God Ymarfer y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â chyfrifoldebau o ran cyfrinachedd.

Felly, byddai'n help mawr i ni pe gallwch egluro pam yr ydych yn teimlo bod y wybodaeth a roddwch i ni yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn talu sylw llawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd i chi y gallwn gadw'r wybodaeth honno'n gyfrinachol ym mhob achos. Ni fydd gwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ynddo'i hun yn ymrwymo'r Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA ac yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn golygu na fydd eich manylion personol yn cael eu datgelu i drydydd parti.

4.5 Nodau a Strwythur

Yn adran 3 mae dadansoddiad cryno o nodau a strwythur yr Adolygiad i chi roi sylwadau arno. Cynhwyswyd hwnnw yn lle Asesiad o Effaith Reoleiddiol oherwydd nid oes unrhyw bolisïau newydd yn cael cu cynnig ar wahân i'r rhai a gyhoeddwyd eisoes ers y fersiwn ddiwethaf o'r Strategaeth yn 2000. Pwysleisir hefyd mai unig ddiben y Strategaeth hon yw rhoi arweiniad i'r diwydiant ac mae'r Llywodraeth yn awyddus i gael cydweithrediad y diwydiant adeiladu gyda'r amcanion a'r canlyniadau yn y ddogfen Strategaeth derfynol. Soniwyd cryn dipyn yn y gorffennol am 'fanteision cynaliadwyedd i fusnesau' ac rydym yn rhagweld, yn eithaf hyderus, y byddai'r buddiannau hirdymor o weithredu'r canllawiau yn drech nag unrhyw gostau perthnasol.

4.6 Beth Nesaf?

Bydd cyfarfod i randdeiliaid yn cael ei gynnal ar 7 Mawrth 2006 yng Nghanolfan Gynadledda y DTI yn 1 Victoria Street i gyfrannu rhagor at y broses ymgynghori. Bwriadwn gyhoeddi crynodeb o ymatebion (y rhai nad ydynt yn gyfrinachol) i'r ymgynghoriad ar wefan y DTI cyn pen 3 mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Y nod yw cyhoeddi'r ddogfen Strategaeth derfynol yn ystod haf 2006.

Rhowch wybod i ni os hoffech gael gwybod am ddatblygiadau pellach.

4.7 Y Sefydliadau yr Ymgynghorwyd â Hwy
Yn Atodiad C o'r Adroddiad ar y Strategaeth Ddrafft mae rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion hynny a gyfrannodd at ffurfio'r ddogfen ymgynghori hon. Mae croeso i chi awgrymu enwau sefydliadau neu bobl eraill a allai fod yn awyddus i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

4.8 Cod Ymarfer
Wrth baratoi'r ymgynghoriad ar gyfer y ddogfen Strategaeth hon dilynwyd Cod Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar Ymgynghori. Gellir gweld y cod cyfan ar wefan Swyddfa'r Cabinet yn
http://www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/consultation/index.asp

4.9 Sylwadau neu Gwynion
Os hoffech gwyno neu wneud sylwadau am y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, ysgrifennwch at:

Nick Van Benschoten,
Cydgysylltydd Ymgynghoriadau'r DTI,
1 Victoria Street,
Llundain
SW1H 0ET

Ffoniwch Nick ar 020 7215 6206
Neu anfonwch e-bost at: nick.vanbenschoten@dti.gsi.gov.uk

ATODIAD 1: FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Gwahoddiad

Gwahoddir chi i roi sylwadau am gynigion y Llywodraeth ar gyfer diweddaru'r Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy, fel y disgrifir yn y ddwy ddogfen ganlynol:

- Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2006: Crynodeb Drafft Ionawr 2006

a

- Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2006: Adroddiad Drafft Ionawr 2006

Gofynnir yn arbennig am eich barn am y cynigion allweddol yn Adran 8 o'r Adroddiad, sy'n ymwneud â'r dyfodol. (Mae'r rhain yn cael eu hailgyhoeddi ar wahân yn y ddogfen Crynodeb.) Er yr ymgynghorir ar yr holl gynigion hyn fel rhan o becyn o fesurau, nid ydynt yn gwbwl anhyblyg, h.y. gellid newid un neu ragor ohonynt yng ngoleuni'r broses ymgynghori.

Sut i ymateb

Gwahoddir sylwadau ar unrhyw agwedd o'r dogfennau ymgynghori. I'n helpu ni ddadansoddi'r ymatebion byddem yn ddiolchgar iawn petaech yn llenwi'r ffurflen ymateb isod naill ai'n electronig neu ar gopi caled. Mae croeso i chi anfon sylwadau ychwanegol, tystiolaeth a/neu ddogfennau i ategu'ch sylwadau.

Gallwch ddychwelyd eich ffurflenni drwy'r post neu'r e-bost. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau i'r ymgynghoriad hwn yw 26ain Ebrill 2006. Ystyrir pob ymateb a ddaw i law cyn y dyddiad hwn.

Gallwch lawrlwytho copïau ychwanegol o'r ddogfen ymgynghori hon, y ffurflen ymateb, a chopïau o'r ddwy ddogfen yr ydym yn ymgynghori yn eu cylch, sef:

- Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2006: Crynodeb Drafft Ionawr 2006

a

- Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy 2006: Adroddiad Drafft Ionawr 2006

oddi ar wefan y DTI, www.dti.gov.uk, neu gallwch gael copïau caled oddi wrth:

Miss A Turner
Y Tîm Rheoleiddio, Cynaliadwyedd ac Arloesedd
DTI - Uned y Sector Adeiladu, Bae 366,
151 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SS

A fyddech gystal ag anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn cyn gynted â phosibl ac erbyn 26ain Ebrill 2006 fan hwyraf. Anfonwch ef yn uniongyrchol

Dros yr e-bost: Neu drwy'r post at:

Mr David Eggleton
david.eggleton@dti.gsi.gov.uk
Yr Adran Masnach a Diwydiant
Y Tîm Rheoleiddio, Cynaliadwyedd ac Arloesedd
Uned y Sector Adeiladu,
Bae 366,
151 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SS

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy

Manylion yr Ymatebydd	
Enw: Sefydliad: Cyfeiriad: Tref/Dinas: Sir/Cod Post: Ffacs: E-bost:	Anfonwch eich ymatebion erbyn 26ain Ebrill 2006, drwy'r post neu'r e-bost, at: David Eggleton Yr Adran Masnach a Diwydiant Y Tîm Rheoleiddio, Cynaliadwyedd ac Arloesedd Uned y Sector Adeiladu, Bae 366, 151 Buckingham Palace Road Llundain SW1W 9SS david.eggleton@dti.gsi.gov.uk

Math o sefydliad (ticiwch un blwch yn unig)	
☐ Arolygydd Cymeradwy	☐ Gweithgynhyrchydd
☐ Penseiri	☐ Corff neu gymdeithas lafur
☐ Peiriannydd Sifil/Strwythurol	☐ Unigolyn preifat (digyswllt)
☐ Datblygwyr Masnachol	☐ Corff neu sefydliad proffesiynol
☐ Ymgynghoriaeth	☐ Cyllidwr eiddo
☐ Datblygwr tai neu eiddo	☐ Sefydliad ymchwil/academaidd
☐ Cymdeithas Dai (Landlord Cymdeithasol Cofrestredig)	☐ Gr_p lobïo neu ddiddordeb penodol
☐ Sefydliad anllywodraethol arall	☐ Unigolyn mewn practis, galwedigaeth neu broffesiwn
☐ Adeiladwr/contractwr arall (dywedwch beth)	☐ Newyddiaduraeth/y cyfryngau
☐ Awdurdod lleol – Rheoli Adeiladu	☐ Yswiriwr
☐ Awdurdod lleol – lechyd yr amgylchedd	☐ Arall (dywedwch beth):
☐ Awdurdod lleol – arall (dywedwch beth)	

Defnyddiwch X i ateb y cwestiynau canlynol
A yw eich ymateb yn gyfrinachol? Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Os ydyw, eglurwch pam (Gweler y gwadiad ar dudalen x)

Rhagair: Rydym yn sylweddoli na fydd pob un yr ymgynghorir ag ef am fynegi barn am bob cwestiwn. Os na roddwch ateb cymerir yn ganiataol nad ydych yn dymuno cyfrannu i'r ymgynghoriad am y mater penodol hwnnw. Os ydych yn gryf o blaid rhai agweddau ar y canllawiau defnyddiwch y lle gwag o dan 'sylwadau' i ddatgan y gefnogaeth honno.

Dalier sylw ein bod wedi darparu lle i chi roi sylwadau ychwanegol ar bob cwestiwn. Os ydych am roi sylwadau manwl ar unrhyw agwedd ar yr ymgynghoriad, cysylltwch ddeunyddiau ychwanegol a dogfennau ategol wedi'u marcio a'u trawsgyfeirio'n glir i'r cwestiynau perthnasol, fel y bo'n briodol.

1 Ydych chi'n croesawu'r diweddariad i'r Strategaeth Adeiladu Cynaliadwy?

Sylwadau: Ydw ☐ Nac ydw ☐

2 Ydych chi'n credu bod yr ymdriniaeth gyffredinol o'r themâu allweddol a'r is-themâu yn gywir?

Sylwadau: Ydw ☐ Nac ydw ☐

3 A yw cydbwysedd y testun ar faterion sy'n sôn am waith blaenorol yn briodol?

Sylwadau: Ydyw ☐ Nac ydyw ☐

4 Os nad ydyw, beth ddylid ei newid o ran cynnwys?

Sylwadau:

5 A yw targedau'r dyfodol a'r weledigaeth yn weddol agos ati?

Sylwadau: Ydynt ☐ Nac ydynt ☐

6 Os nad ydynt, beth arall hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys?

Sylwadau:

7 Oes gennych chi unrhyw sylwadau am gostau a manteision y Strategaeth?

Sylwadau: Oes ☐ Nac oes ☐

8 Oes gennych chi unrhyw sylwadau am yr Asesiad o'r Effaith ar Fusnesau? (Cofiwch nad dogfen reoleiddiol yw hon ac y dylai'r manteision o weithredu'r canllawiau fod yn drech nag unrhyw anfanteision).

Sylwadau: Oes ☐ Nac oes ☐

10. Os ydych yn adeiladu tai, ydych chi'n debygol o fabwysiadu a dilyn egwyddorion perthnasol y Strategaeth?

Sylwadau: Ydw ☐ Nac ydw ☐

Diolch yn fawr i chi am eich amser

Dalier sylw:

Mae'n bosibl y gallai pob gwybodaeth mewn ymatebion, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r ddeddfwriaeth ar ryddid gwybodaeth. Os bydd ymatebydd yn gofyn am gyfrinachedd, dylid sylweddoli na ellir gwarantu hynny ac na fydd hynny'n bosibl oni chaiff ei ystyried yn briodol o dan y ddeddfwriaeth. Dylai unrhyw gais o'r fath esbonio pam fod angen cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol. Ni fydd unrhyw wadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei gyfrif yn gais o'r fath oni fyddwch yn cynnwys cais yn benodol, ynghyd ag esboniad, ym mhrif gorff eich ymateb.

Wedi dweud hynny, bydd ymatebion cyfrinachol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw grynodeb ystadegol am nifer y sylwadau a'r safbwyntiau a fynegwyd, er na fydd unigolion yn cael eu henwi.

Mae'n bosibl y bydd enwau a chyfeiriadau yn cael eu cadw mewn cronfa ddata electronig o bartïon sydd â diddordeb er mwyn dosbarthu dogfennau ymgynghori eraill yn y dyfodol ar faterion tebyg. Ond ni fydd manylion fel hyn yn cael eu rhoi i drydydd parti.

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn www.dti.gov.uk

Gellir cael copïau papur oddi wrth:

Miss A Turner
Y Tîm Rheoleiddio, Cynaliadwyedd ac Arloesedd
DTI - Uned y Sector Adeiladu, Bae 366,
151 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SS